

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD**

### **AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG – ar gyfer y flwyddyn 2020-21**

**Cynnwys:**

**RHAGAIR – [i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol]**

- 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau**
- 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau**
- 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2020-21**
  - 3.1 Cyfieithu ar y Pryd
  - 3.2 Gwasanaethau Newydd
  - 3.3 Newid ffordd o gyflwyno gwasanaethau – arfer da
  - 3.4 Heriau wrth symud ymlaen
- 4. Gwaith penodol i wella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg gorau**
- 5. ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170**
  - 5.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg
  - 5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
  - 5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi
  - 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

**Atodiad 1: Adroddiad Hyfforddiant Iaith 2020-21**

## 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd a chopi o Bolisi Iaith gyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonau-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx>

## **2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau**

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi iaith.

Cafodd y Polisi iaith cyfredol ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n dilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, y dylid parchu dewis iaith unigolion, ac y dylid manteisio ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a bod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae'r Polisi iaith wrthi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a hynny er mwyn ceisio cryfhau'r disgwyliadau mewn rhai meysydd a chynnig mwy o fanylion ac eglurder mewn meysydd eraill. Mae cymalau newydd yn cael eu llunio ar gyfer meysydd megis defnydd o dechnoleg, sydd wedi dod yn fwy perthnasol i'n gwaith dydd i ddydd dros y 5 mlynedd diwethaf ers sefydlu'r Polisi ac ers gosod y Safonau iaith.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith bellach yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Yr her nesaf yw sut i ddefnyddio'r cynnig rhagweithiol mewn ffordd sydd yn annog mwy o drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gwasanaethau, ac yn magu hyder ymysg siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu gallu i ddarllen, deall a defnyddio'r Gymraeg.

### 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2020-21

Credwn fod y modd y mae'r Cyngor wedi ymateb i heriau newydd y flwyddyn a aeth heibio, ac wedi gallu sicrhau'r gwasanaeth dwyieithog drwyddi draw, yn arwydd pendant o lwyddiant y polisi iaith, ac o'r modd y mae gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei wreiddio yn ein gwaith.

Gallai'r sefyllfa anghyffredin y gwnaethon ganfod ein hunain ynnddi, a'r ffaith fod dulliau gweithio dydd i ddydd cynifer o'n staff wedi newid dros nos, fod wedi cyflwyno sawl her o safbwynt sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau a Pholisi iaith y Cyngor. Mewn gwirionedd, rydym wedi gallu wynebu nifer o'r heriau - yn benodol felly o ran defnyddio technoleg a gweithio o bell, a nifer o wasanaethau a thimau newydd yn cael eu sefydlu i ymateb i anghenion newydd o fewn y cymunedau - ac wedi datrys rhwystrau mewn modd effeithiol a sydyn, gan lwyddo i sicrhau bod y gwasanaethau i gyd yn parhau i gael eu cynnig yn gwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.

Cynigiwn yma adlewyrchiad ar rai o'r heriau a'r llwyddiannau dros y flwyddyn:

#### 3.1 Cyfieithu ar y Pryd

Bu Cyngor Gwynedd yn arwain y gad wrth sicrhau fod y ddarpariaeth pwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol hefyd yn cynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Un o'r heriau mwyaf ar gychwyn y flwyddyn oedd y symud i weithio o bell, ac addasu i ddefnyddio dull newydd o gynnal cyfarfodydd torfol. Nid oeddem fel Cyngor wedi defnyddio rhaglen Teams o'r blaen, ac felly roedd rhaid dysgu yn sydyn beth oedd yn bosib a beth nad oedd yn bosib.

Un o'r rhwystrau oedd canfod ffordd o alluogi cyfieithu ar y pryd ar-lein, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i allu cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg

Llwyddwyd i sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn cynnal rhai o'i bwyllgorau ffurfiol yn rhithiol mor fuan â mis Ebrill 2020, a hynny yn defnyddio Teams. Serch hynny, nid oedd y ddarpariaeth Teams yn ddigonol ar gyfer ein holl ofynion - ac yn enwedig felly gyfarfodydd cyhoeddus - a phenderfynwyd trosglwyddo i ddefnyddio meddalwedd Zoom, sy'n llawer haws i'r defnyddiwr ac i'r cyfieithydd. Er bod rhai pryderon am ddiogelwch y feddalwedd Zoom yn wreiddiol, sicrhodd y gwasanaeth TG mai dyma oedd y ffordd orau o sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg ac i sicrhau hawl ieithyddol cyfranwyr.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, roedd tîm Cyfieithu'r Cyngor wedi cyfieithu mewn bron i 400 o bwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol. Rydym hefyd wedi llwyddo i we-ddarlledu Pwyllgorau rhithiol yn fyw ar ein gwefan, a hynny'n ddwyieithog.

Rydym yn dal, serch hynny, i weld bod rhai sefydliadau cyhoeddus eraill yn parhau'n gyndyn o ddefnyddio meddalwedd Zoom, ac mae hynny'n gallu tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd ac amharu ar ein gallu ni fel Cyngor i gynnig y gwasanaeth gorau.

Mae cryn waith wedi'i wneud gan swyddogion o'r Cyngor (swyddogion TG, Cyfieithu ac Iaith) i gynorthwyo'n partneriaid, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar y datblygiadau yn eu

sefydliadau hwy, a hynny er mwyn annog eraill i sicrhau fod pwyllgorau a chyfarfodydd ar gael yn newis iaith y defnyddiwr. Mae swyddogion o'r Cyngor hefyd yn parhau i fod ynghlwm â gwaith cenedlaethol i geisio perswadio Microsoft i gynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn Teams. Gobeithiwn weld newid i'r sefyllfa yma yn fuan yn 2021-22.

### 3.2 Gwasanaethau Newydd

Cafodd nifer o wasanaethau newydd eu ffurfio yn ystod y flwyddyn, er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau yr oeddem yn ei hwynebu yn sgil y pandemig. Crëwyd y gwasanaethau hyn drwy gyfuniad o symud aelodau staff cyfredol y Cyngor oddi wrth eu swyddi arferol, a chyflogi yn allanol mewn cyfnod byr. Roedd felly yn sicrhau gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig cyfleoedd gweithio cyfrwng Cymraeg, mewn cyfnod heriol ac anodd.

#### Gwasanaeth Gofal - cyffredinol:

Cafodd nifer o aelodau staff eu hail-gyfeirio i helpu'r ymateb i'r pandemig, ac o'r Tîm Trawsffurfio Gofal yn benodol. Aeth 2 aelod o'r tîm i weithio gyda threfniadau PPE, 1 aelod o staff i arwain y Tîm Cymorth Covid a 2 aelod staff i arwain yr ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr, 1 aelod staff yn gweithio yn yr Hwb ysbyty, 1 aelod staff yn arwain ar gyfathrebu'r ymdrech Cymorth covid, ac 1 Aelod staff yn arwain Uned Cymorth Covid lleol.

Lansiwyd ymgyrch benodol ar ddechrau'r cyfnod clo i geisio denu aelodau'r cyhoedd i wirfoddoli a/neu i weithio i helpu'r maes gofal, a chafwyd ymateb arbennig o dda. Cafwyd dros 200 o bobl yn dangos diddordeb yn y cyfleoedd gwaith, a chan fod y tîm oedd yn gyfrifol am dderbyn yr ymholiadau yn casglu gwybodaeth am brofiadau a chymwysterau perthnasol, gellir adrodd bod 75% ohonynt yn gallu'r Gymraeg, boed hynny yn rhugl neu yn ddysgwyr. Dim ond 61 oedd wedi datgan nad oeddynt yn deall na siarad cymraeg.

Cafodd 23 penodiad ei wneud yn uniongyrchol drwy'r ymgyrch marchnata hyn at Mawrth 3ydd 2021. Cafodd nifer o benodiadau pellach eu gwneud y tu allan i'r ymgyrch hefyd.

#### Tîm Cymorth Covid:

Cafodd y Tîm Cymorth Covid ei sefydlu er mwyn bod yn bwynt cyswllt canolog ac i gefnogi trigolion Gwynedd i gael yr help oedd ei angen arnynt i ymdopi efo heriau'r argyfwng. Ymysg prif gyfrifoldebau'r Tîm roedd:

- Cymryd galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan y cyhoedd oedd yn ymwneud â materion Covid-19, a rhoi gwybodaeth iddynt;
- Dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth fwyaf priodol i'r trigolion oedd yn cysylltu;

- Cysylltu gyda phawb oedd yn cysgodi a chynnig cymorth, ynghyd â chodi eu hymwybyddiaeth o gymorth y parseli bwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhwng mis Ebrill ac Awst 2020, bu 5,080 o drigolion mewn cyswllt â'r Tîm, gyda 4,781 o'r rheini yn bobl oedd yn cysgodi.
- Uchafu unrhyw bryderon i'r timau perthnasol o fewn y Cyngor;
- Canfod beth oedd yn bwysig i'r trigolion oedd yn cysylltu, a dod o hyd i ddatrysiad;
- Cysylltu gyda mudiadau a chyrrff allanol ar ran y trigolion, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y mudiad/corff a'r trigolyn pan fo hynny'n briodol.
- 

Cafod y gwasanaeth hwn ei gynnig yn gyfan gwbl ddwyieithog, wrth reswm, gyda gwybodaeth gyfredol yn cael ei ddarparu i drigolion drwy wefan benodol "Help i drigolion a Chymunedau" a 27 aelod o staff y Cyngor yn cael eu dargyfeirio o wahanol wasanaethau i'r Tîm Cymorth Covid dros gyfnod o 8 mis (Mawrth – Hydref 2020)

Darparwyd canllaw i staff i gofnodi sgysiau yn union fel yr oeddent yn cael eu hadrodd ( gan gynnwys yr iaith), ac mae'r cofnodion yn dangos mai dewis siarad Cymraeg yr oedd y mwyafrif o'r trigolion y daethpwyd i gyswllt â nhw.

Yn ôl adborth y gwasanaeth roedd teimlad bod y cynnig Cymraeg wedi gwneud gwahaniaeth mawr wrth adeiladu perthynas gyda'r trigolion ac wedi eu galluogi i gynnig gwasanaeth oedd yn gwneud i bobl deimlo yn gyfforddus ac yn werthfawrogol o'r sgwrs a'r gefnogaeth.

### Y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu:

Sefydlwyd y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi 102 o weithwyr – 7 wedi cael eu secondio o wasanaethau eraill y Cyngor a 5 aelod o staff arall yn gweithio fel staff 'banc'. Cafodd 90 aelod staff eu cyflogi o'r newydd.

Prif amcan y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu yng Ngwynedd yw:

- Adnabod y bobl sydd wedi eu heintio neu wedi bod mewn cyswllt ag achos positif o Covid-19 a'u cefnogi i ynysu yn ystod y cyfnod heintus, neu hyd nes i'r symptomau neu gyfnod magu'r haint fynd heibio; a
- Cefnogi pobl sydd â symptomau i gael mynediad at brawf Covid-19

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cysylltu gyda miloedd o bobl ar draws y sir, yn uniongyrchol a thrwy weithredu cyd-gymorth gydag awdurdodau lleol eraill ar draws y Gogledd, i gynnig cefnogaeth a chynghor amhrisiadwy. Yn y chwe mis rhwng Mehefin a Rhagfyr 2020, er enghraifft, mae'r gwasanaeth yng Ngwynedd wedi delio gyda dros 8,000 o achosion Covid.

Un o'r rhwystrau a wynebwyd gyda'r gwasanaeth yma oedd wrth recriwtio. Gan fod y gwasanaeth yn cael ei gydlynu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, nid oedd gan y Cyngor reolaeth lawn dros y broses recriwtio. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain (letya) gan awdurdod arall, a'r awdurdod

hwnnw yn gyfrifol am yr ymgyrch recriwtio. O ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth i anghenion penodol y gogledd orllewin o ran cael gweithwyr cyfrwng Cymraeg, fe adawyd y gwasanaeth yng Ngwynedd gyda phrinder ymgeiswyr oedd yn gallu'r Gymraeg oedd yn gallu cael eu penodi i'r swyddi gwag. Mae'r sefyllfa yma wedi gadael y gwasanaeth yn fregus o ran cael niferoedd digonol o staff i ymateb i ymchwyddiadau (mewn unrhyw iaith) ac, yn arbennig, i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd yn eu hiaith eu hunain.

Serch hynny, mae 90% o'r staff a gafodd eu penodi naill ai'n Gymraeg iaith gyntaf neu ail iaith neu yn ddysgwyr Cymraeg. Mae dysgwyr yn cael eu paru yn rheolaidd gyda siaradwyr rhugl Cymraeg er chwarae rôl, ac er mwyn gwella eu sgiliau. Mae gennym hefyd grŵp siaradwyr Cymraeg lle mae cyfle i'r rhai sy'n dysgu'r iaith siarad mewn amgylchedd diogel gyda'r rhai sydd yn rhugl.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am ei hyfforddiant ei hun, ac wedi cynnal yr hyfforddiant hwnnw yn ddwyieithog. Mae gan y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghyngor Gwynedd dîm hyfforddi pwrpasol sy'n dylunio a darparu pob agwedd ar hyfforddiant sy'n ofynnol, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu a rôl gychwynol hyd at weithredu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol newydd/diwygiedig, yr olaf ohonynt yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r dull hyfforddi yr un mor hyblyg ac ymatebol â'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu; gydag ymyriadau hyfforddi byr yn wythnosol (ar gyfer pob rôl swydd), hyd at holl aelodau'r tîm yn gallu hunan-feirniadu eu perfformiad eu hunain a gofyn am hyfforddiant pan fyddant yn teimlo bod angen hyn arnynt.

Dyma ddyfyniad gan y gwasanaeth am y gwaith sydd wedi ei wneud i annog staff a gwella eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod:

“Pan gawn ni rywun sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf ond sydd â rhywfaint o Gymraeg, rydym ni'n eu cyfeillio gyda siaradwr rhugl ac yn chwarae rôl ar gyfer gwiriadau dyddiol yn y Gymraeg gyda nhw, sy'n gweithio'n dda iawn. Mae hyn yn magu eu hyder gryn dipyn ac maen nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n gwybod mwy nag yr oedden nhw'n ei feddwl. Yna maen nhw'n dechrau cyfrannu yn ystod amser paned yn y Gymraeg ac mae eu hyder yn tyfu i allu cynnal sgwrs lawn gyda chwsmer yn y Gymraeg. Mae gennym garfan fach o staff sy'n mentora'r bobl hyn, mae'n gweithio'n dda iawn.”

### 3.3 Newid ffordd o gyflwyno gwasanaethau – arfer da

Bu rhaid i nifer o wasanaethau newid eu dulliau gweithio o ganlyniad i'r cyfyngiadau ac mae sawl enghraifft dda ar draws y Cyngor o weithwyr yn addasu ac yn parhau i gynnig gwasanaeth a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd. Un enghraifft o hyn oedd y gwasanaeth y **Cynllun Dementia Go**, sef cynllun sy'n helpu cefnogi pobl sy'n byw efo Dementia, eu teuluoedd a'u gofalgwyr drwy gynnig gweithgareddau ymarfer corff mewn amgylchedd diogel.

Oherwydd yr argyfwng bu'n rhaid atal y gweithgareddau a'r dosbarthiadau cymunedol arferol, ond roedd y tîm yn awyddus i barhau i gadw mewn cysylltiad â chefnogi aelodau'r grŵp.

Mae'r tîm wedi bod yn brysur yn dyfeisio ffyrdd newydd o gadw mewn cyswllt, o sgysiau ffon a fideo rheolaidd i rannu newyddlen, cynnal cystadlaethau a heriau, trefnu webinars, gwneud fideos ffitrwydd a chodi arian.

“Mae diffyg cyswllt cymdeithasol yn medru cael effaith fawr ar bobl, yn gorfforol ac yn feddyliol,” meddai Emma Quaeck, Rheolwr y cynllun. “Ryda ni mor falch ein bod yn medru cario mlaen i gynnig cefnogaeth i'n aelodau, a helpu pobl i ymdopi. Mae'n teimlo bo ni gyd dal yn rhan o un deulu mawr sydd yn mynd trwy'r cyfnod heriol yma efo'n gilydd ”

### 3.4 Heriau wrth symud ymlaen

Mae profiadau'r Cyngor a'i staff dros y flwyddyn wedi amlygu nifer o heriau y bydd angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac ystyried sut i'w datrys dros y misoedd nesaf.

- **Sgiliau staff**

Sut ydym ni'n sicrhau cyfleoedd effeithiol i ddysgu ac ymarfer sgiliau Cymraeg wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir? Er mwyn sicrhau nad yw ein gallu i gynnig y gwasanaeth Cymraeg rhagweithiol yn lleihau/gwanhau, mae angen i ni weithio i sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r hyder priodol.

Mae'n amlwg bod y pandemig a'r newid i ddarparu rhagor o hyfforddiant ar-lein wedi bod yn gadarnhaol ac wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff Cyngor Gwynedd ddysgu a datblygu eu Cymraeg. Rhoddodd yr argyfwng gyfle i gomisiynu gwersi na allai fod wedi bod yn bosib cyn y pandemig. Er enghraifft, trefnwyd i ddau gohort o ddysgwyr ar ddwy lefel wahanol dderbyn gwersi ar-lein trwy Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin – gwersi a fu'n anodd iawn eu trefnu wyneb-i-wyneb cyn y pandemig oherwydd patrwm gwaith ac argaeledd tiwtoriaid. Bu'r newid i ddysgu ar-lein hefyd yn gymorth i fwy o staff (yn enwedig staff sy'n gweithio shiftiau) fynychu gwersi neu hyfforddiant Cymraeg oherwydd ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd a llai o waith teithio i leoliad dysgu. Bydd yn bwysig ein bod yn adeiladu ar y llwyddiannau yma.

- **Defnydd anffurfiol – magu hyder staff yn eu Cymraeg**

Roedd arolwg a gynhaliwyd ymysg ein staff (ar gais y Comisiynydd) yn awgrymu bod nifer yn colli'r cyfleoedd anffurfiol oedd ar gael wrth weithio yn swyddfeydd y Cyngor. Yr her i ni yw sut rydym yn ail-greu'r sefyllfaoedd hynny wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir.

Roedd adborth gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu hefyd yn nodi fod posibilrwydd i'r diffyg cyswllt anffurfiol yma rhwng swyddogion - yn y swyddfa, ar y coridor neu yn y gegin - arafu datblygiad rhai unigolion wrth geisio dysgu'r Gymraeg gan nad yw'r un cyfleoedd ar gael gartref i ymarfer eu sgiliau rhwng y gwersi mwy ffurfiol. Nid oes tystiolaeth gadarn i gefnogi hyn, ond mae ein Cynllun Cyfeillion Cymraeg yn cynnig y cyfleoedd anffurfiol hynny i ddysgwyr allu cadw'r momentwm wrth weithio gartref a bydd yn bwysig i ni edrych ar ffyrdd newydd o gynnal y cysylltiadau hyn.

- **Recriwtio**



Mae'r profiad o sefydlu gwasanaethau newydd ar fyr rybudd wedi amlygu'r angen am weithwyr rheng flaen sydd yn siarad Cymraeg. Er bod staff y Cyngor ei hun yn meddu ar y sgiliau cywir, mae cyfle wrth symud ymlaen i sicrhau bod ymwybyddiaeth gadarn ar draws yr awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, o'r angen am weithlu sydd a'r sgiliau priodol, er mwyn sicrhau bod y gweithlu cywir gennym mewn unrhyw sefyllfaoedd o gydweithio.

- **Cyfieithu mewn cyfarfodydd**

Mae'n amlwg bod cryn dipyn o waith yn dal i wneud i wella'r ddarpariaeth yn y maes yma, ac mae Cyngor Gwynedd mewn lle da i fod yn gallu rhannu arferion da ac i annog sefydliadau eraill i weithredu yn yr un modd. Mae angen codi ymwybyddiaeth ein partneriaid o'r angen i gael yr agwedd gywir tuag at gyfieithu ar y pryd, i sylweddoli'r angen i fod yn gwneud cynnig rhagweithiol ac i beidio â'i weld fel rhywbeth sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y siaradwyr Cymraeg yn unig.

- **Defnydd y cyhoedd o wasanaethau**

Mae deall arferion y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau – beth sydd yn eu gyrru i wneud penderfyniadau o safbwynt defnydd iaith – wedi bod yn faes o ddiddordeb ers cryn amser. Roeddem wedi adrodd y llynedd am waith arsylwi a gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd yn ein derbynfydd, a bwriad i ddatblygu ar y gwaith hwnnw gyda mwy o waith arsylwi. Roeddem hefyd wedi nodi ein bod eisiau canolbwytio'r gwaith ar ddeall arferion defnyddwyr ar y gwasanaethau ar-lein, gan mai hwnnw oedd ein pryder mwyaf.

Mae amgylchiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud unrhyw waith datblygol yn y maes hwn yn amhosib, ond mae hefyd wedi amlygu'r angen i ddeall newidiadau yn arferion pobl ac i allu ymateb i'r newidiadau hynny yn rhagweithiol.

Wrth i bobl newid eu harferion ymgysylltu gyda ni, ac o ganlyniad i nifer cynyddol o wasanaethau yn cael eu cynnig ar-lein, mae angen i ni fod yn wiliadwrus o newidiadau ac ystyried sut y gallwn ni ddylanwadu ar ddefnydd iaith.

#### 4. Gwaith penodol i wella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg gorau

<b>Maes Gwaith</b>	<b>Diweddarau Polisi Iaith y Cyngor</b>
<b>Safonau perthnasol</b>	<b>Pob Safon</b>
<b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b>	<p>Buom yn gwneud gwaith ar adolygu'r polisi iaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Mae'r penderfyniad i ddiwygio'r polisi wedi ei yrru yn bennaf gan y teimlad nad oedd nifer o sefyllfaoedd gweithio cyfredol yn cael eu hadlewyrchu yn y Polisi cyfredol, nac ychwaith yng ngofynion y Safonau. Nid oedd digon o fanylder, er enghraifft, i'n harwain yn y defnydd cywir o'r Gymraeg wrth gynnig gwasanaethau ar-lein ac yn y defnydd o dechnoleg, ac felly penderfynwyd manteisio ar y cyfle i edrych drwy'r polisi cyfan a gwneud newidiadau fydd yn cryfhau ein hymrwymiad, ac hefyd yn gwneud gofyn y Safonau yn gliriach mewn rhai meysydd.</p> <p>Gan fod gwaith helaeth wedi bod yn cael ei wneud i sefydlu prosiect y Dynodiadau Iaith, er enghraifft, roedd angen diwygio'r darn o'r polisi oedd yn delio gyda phrosesau penodi a recriwtio. Mae nifer o newidiadau eisoes yn weithredol o fewn y broses recriwtio sydd yn cryfhau ein cydymffurfiaeth a bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu o fewn y polisi newydd.</p>
<b>Camau pellach fydd angen eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf</b>	Mae gwaith dal angen ei wneud i gytuno ar y newidiadau ym maes technoleg, ac yna bydd y polisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith a'r Cabinet i'w gymeradwyo.

<b>Maes Gwaith</b>	<b>Defnydd o dechnoleg a gwasanaethau ar-lein</b>
<b>Safonau perthnasol</b>	<b>Cyflenwi Gwasanaethau</b> , yn benodol 52, 55, 56, 57, 58, 59 a 60
<b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b>	<p>Mae'r maes hwn yn dal i fod yn bryder, ac rydym yn parhau i geisio canfod datrysiadau ar gyfer y tymor hir.</p> <p>Rydym yn parhau i asesu pob un o'r datblygiadau hyn yn unigol, ond rydym hefyd yn dal i wynebu sawl her, yn enwedig wrth brynu</p>

	<p>systemau i mewn nad ydynt wedi cael eu datblygu yn ddwyieithog yn y lle cyntaf. Mae gennym swyddogion yn y gwasanaeth TG, ac mewn gwasanaethau unigol, sydd wedi gweithio yn agos gyda datblygwyr i sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei gyhoeddi ar y diwedd yn gweithio yn unol a'r Safonau, ond rydym yn dal i fod yn wynebu rhwystrau wrth geisio integreiddio systemau allanol i'n gwefan.</p>
<p><b>Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf</b></p>	<p>Bydd datblygu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg yn dod yn un o'n blaenoriaethau datblygu dros y blynyddoedd nesaf.</p>

<p><b>Maes Gwaith</b></p>	<p><b>Asesu Effaith</b></p>
<p><b>Safonau perthnasol</b></p>	<p>88+89+90+94</p>
<p><b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b></p>	<p><b>Diweddariad 2019 - 2020:</b></p> <p>Mae'r gwaith ar ddatblygu templed asesu effaith integredig ar lefel ranbarthol bellach wedi ei gwblhau ac rydym yn barod i ddefnyddio'r templed newydd o 2021 ymlaen. Bydd yr asesiad hwn yn cwmpasu gofynion Deddf Cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mesur y Gymraeg a'r Ddeddf Llesiant, gan osgoi gorfod dyblygu gwaith a chwblhau mwy nag un asesiad ar gyfer yr un cynllun.</p> <p>Rydym wedi cydnabod yn ystod y flwyddyn nad oedd ein trefniadau mewnol ar gyfer cynnal asesiadau effaith yn ddigon cadarn, ac wedi bod yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth swyddogion o'r angen i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith ar gynlluniau a pholisïau, ac yn mireinio'r trefniadau pan fydd asesiadau yn cael eu cyflwyno fel rhan o adroddiadau i Gabinet y Cyngor.</p>
<p><b>Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf</b></p>	<p>Codi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant priodol i swyddogion a rheolwyr ar draws y Cyngor o'r trefniadau a'r templedi newydd.</p>

## 5. ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170

### 5.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

*Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.*

Rydym yn defnyddio ein System Sgiliau Iaith newydd i gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu yn unig. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn bellach ddechrau adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

**Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau Iaith, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg.** Mae elfen gofnodi data'r system yn ei lle ac yn weithredol, ond rydym yn parhau i ddatblygu adroddiadau fydd yn cynhyrchu'r data mwyaf defnyddiol...'

**NODER:**

- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.
- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau y gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - **GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - gan eu bod yn gydbwyllgorau ac felly nad ydynt atebol i ofynion y Safonau. Nid ydym yn cynnwys staff ysgolion yn ein data chwaith.

### Adroddiad Sgiliau:

Mae'r wybodaeth isod yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

### Trosolwg o'r sefyllfa:

<b>Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*</b>	<b>3862</b>	
<b>Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd</b> – yn cynnwys Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau	<b>2401</b>	62%
<b>Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd (Cwestiwn 2)*</b>	<b>2091</b>	54%


\*nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

<b>Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>2204</b>	92%
<b>Ar sail hunanasesiadau ac asesiadau rheolwyr</b>		
<b>Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>197</b>	8%
<b>Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)</b>	<b>2084</b>	99.7%
<b>Ar sail yr hunanasesiadau sydd wedi eu casglu</b>		
<b>Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o gwbl</b>	<b>7</b>	0.3%

### Lefelau iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Canolradd neu uwch.


\*Er hwylustod, talfyrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn ar y dudalen nesaf



	Addysg (heb gynwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Tai ac Eiddo	Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol
<b>Hyfedredd</b>	181	66	117	130	81	233	149	56	38	53	9
<b>Uwch</b>	142	36	58	41	43	125	43	35	24	42	6
<b>Canolradd</b>	61	5	9	4	6	57	7	17	1	4	1
<b>Sylfaen</b>	29	2	1	0	4	32	9	2	0	5	0
<b>Mynediad</b>	36	3	0	0	0	58	10	4	3	3	0
<b>Dim sgiliau</b>	2	0	0	0	0	5	0	0	0	0	0

### Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae gofynion lefelau un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.



Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, gan ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Priffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu cymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddyndiad y swydd.

## 5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

*Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs*

**Safon 128:** Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

(a) recriwtio a chyf-weld;

(b) rheoli perfformiad;

(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;

(ch) ymsefydlu;

(d) delio â'r cyhoedd; ac

(dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

### Hyfforddiant Cyffredinol

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer pob adran o fewn y Cyngor POB ADRAN (heblaw BYW'N IACH, Cefnffyrdd, GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr)

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.20 a 31.03.21 - **686**

Nifer y teitlau – cyrsiau gwahanol – a gynnigwyd yn ystod y cyfnod 01.04.20-31.03.21 – **170**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	289	1044
Saesneg	305	796
Dwyieithog	92	453



**Safon 128- 68 UNIGOLYN WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY CROESO YN Y CYFNOD 01.04.20 – 31.03.21**  
(7 digwyddiad wedi ei gynnal)

66 wedi ei gael yn Gymraeg (97%)

2 wedi ei gael yn Saesneg (3%)

**Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:**

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.20 a 31.03.21 - **72**

Nifer y teitlau – cyrsiau gwahanol – a gynnigwyd yn ystod y cyfnod 01.04.20-31.03.21–**19**

<b>DIGWYDDIADAU</b>		
<b>HYFFORDDI</b>	<b>NIFER</b>	<b>MYNYCHWYR UNIGRYW</b>
Cymraeg	34	9
Saesneg	27	213
Dwyieithog	11	118

### 5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi

*Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn*

*(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;*

*(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;*

*(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu*

*(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.*

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	<b>441</b>
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	<b>0</b>
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	<b>0</b>
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	<b>0</b>

Mae pob swydd a hysbysebir gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil hanfodol.

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda datganiad sydd yn nodi mai'r Gymraeg yw iaith weithredol y Cyngor, a bod angen i ymgeiswyr feddu ar y sgiliau iaith sydd wedi eu nodi yn y swydd ddisgrifiad (h.y. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol). Mae union lefel y sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen yn cael eu nodi o fewn Manylion Person y swydd.

Os na fydd modd penodi unigolyn gyda'r sgiliau cywir ar yr hysbysiad cyntaf, bydd modd i reolwyr wneud cais i addasu geiriad y datganiad i annog ymgeiswyr newydd ac i ganiatáu penodi rhywun sydd ddim eto yn cyrraedd y gofynion ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd posib cynnwys cymal o fewn cytundeb i nodi'r ymrwymiad a bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei chytuno ar y cyd gyda'r rheolwr a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. **Ni fydd** dynodiad iaith y swydd yn cael ei newid, felly mae'r gofyniad uchod bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd yn parhau.

## 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

*Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*

### Nifer ymholiadau cyn ymchwilio gan y Comisiynydd: 3

- Gwasanaeth Catalog Llyfrgelloedd ar-lein
- Arwydd ffordd uniaith, Caernarfon
- Arwydd ffordd Pwllheli

Cwynion a dderbyniwyd yn fewnol yn erbyn y Polisi Iaith

Adran	Nifer y Cwynion	
Amgylchedd	1	Cwyn am ap parcio Pay by Phone, gan nad yw ar gael ar bob ffon yn y Gymraeg.
Cyllid	1	Safon iaith mewn llythyr am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Cefnogaeth Gorfforaethol/Cyllid	1	Asesiad Effaith ar Gyllideb y Cyngor
Oedolion	1	Ffurflenni cais grant (Grant Llywodraeth Cymru)
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	

## Atodiad 1:

### Adroddiad Hyfforddiant Iaith 2020-21

#### Cyflwyniad

O ganlyniad i'r newid o ddysgu ar-leoliad mewn ystafell ddosbarth i ddysgu o bell, ar-lein, gwelsom gynnydd yn y nifer o unigolion yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Yn gyffredinol, y prif resymau dros hyn oedd:

- **dim angen teithio** – o ganlyniad, staff yn gallu treulio mwy o amser yn y gweithle
- **adnoddau ar gael ar-lein**
- **hyblygrwydd yn y trefniadau**, o ran math o gyrsiau ac o ran amser
- **dim cyfyngiadau daearyddol**, h.y. gallu cael mynediad at unrhyw gwrs o unrhyw le

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn:

- Sesiynau mewnol ar-lein gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg)
  - Sesiynau 1:1
  - *Cwrs Ysgrifennu Ffurfiol*
- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academiaidd (gwersi wythnosol ar-lein)
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiwtoriadaid allanol
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy)
- Cyrsiau hunanastudio ar-lein e.e. *Hunanastudio lefel Mynediad, Croeso Cymraeg Gwaith a Gwella Cymraeg Gwaith*
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol

O ran darpariaeth fewnol, byddwn yn ehangu'r dewis sydd ar gael yn ystod y misoedd nesaf trwy beilotu cwrs Gloywi Iaith ar-lein newydd fydd yn cymryd lle'r Gloywi Iaith traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth, cyn ehangu'r dewis trwy gynnis hyfforddiant megis *Treiglo a Defnyddio Technoleg Cymraeg*.

#### Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

##### **Llwyddiannau dysgwr o'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Am flynyddoedd, bu'n her dod o hyd i drefniant sefydlog ac effeithiol ar gyfer rheolwr gwasanaeth yn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Oherwydd natur ei waith, roedd amser yn brin, ac roedd mynychu cwrs rheolaidd, megis cwrs wythnosol neu ryddhau amser ar gyfer cwrs dwys yn amhosib. Nid tasg hawdd oedd dod o hyd i diwtor fyddai'n gallu ymweld â'r gweithle i gynnal sesiynau 1:1 iddo chwaith.

Bellach, diolch i'r cyfleoedd newydd sydd wedi codi yn sgîl y pandemig, mae'n derbyn gwersi 1:1 wythnosol gyda thiwtor ac yn gwneud cynnydd arbennig. Mae'r ffaith y gellir teilwra'r cwrs i'w

anghenion yn fuddiol iawn ac yn golygu y gall ddefnyddio'r hyn mae'n ei ddysgu yn ei waith bobdydd, ac mae hyblygrwydd yr amser cyfarfod yn gweddu ei amserlen yn berffaith.

Yn ogystal â chanmoliaeth uchel ei diwtor, mae'n braf nodi i'w reolwyr a'i gydweithwyr weld ei gynnydd ar waith hefyd, er enghraifft, nid yw'r Pennaeth Adran yn anfon e-byst dwyieithog i'r Tîm Rheoli mwyach, a hyd yn oed yn derbyn rhai e-byst yn ôl yn Gymraeg. Meddai'r Pennaeth Adran: *"Mae o yn cyfrannu i'r Tîm Rheoli drwy gyfrwng y Gymraeg ers rhai wythnosau – a heddiw gwnaeth hynny mor naturiol fel ei fod yn defnyddio ein geirfa dydd i ddydd yn hytrach na geirfa ffurfiol"*.

## Cyrsiau comisiwn

Comisiynwyd sawl cwrs arbennig ar gyfer ein staff yn ystod 2020-21, yn bennaf oherwydd anghenion amrywiol ein gweithlu. Dyma ambell enghraifft o'r cyrsiau a drefnwyd:

Lefel	Manylion y cwrs	Nifer y mynychwyr	Rhagor o wybodaeth
Mynediad	Gwersi wythnosol, Awr o hyd dros 10 wythnos	8	Sylweddolwyd bod nifer o staff sy'n gweithio shifftiau neu staff rheng flaen yn methu ymrwmo i gwrs cymunedol neu gwrs dwys oherwydd yr hualau sydd ynghlwm â chwrs o'r fath. O ganlyniad, comisiynwyd cwrs byr, 10 wythnos, er mwyn cyflwyno'r Gymraeg a rhoi blas o elfennau'r Gymraeg, ar amser a dyddiad y gallai'r mynychwyr ymrwmo iddo. Mae 3 o'r rhain bellach yn dilyn cwrs newydd hunanastudio Cymraeg Gwaith.
Canolradd Rhan 1	Gwersi wythnosol 1 awr o hyd dros 10 wythnos	7	Cynhaliwyd y cwrs hwn rhwng mis Mai a Gorffennaf 2020 ar gyfer aelodau o staff Byw'n Iach ar gais yr adran. Cafwyd cryn drafferth ymateb i'r cais yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020, yn bennaf oherwydd diffyg tiwtoriaid a allai ateb y gofynion a chynnal y cwrs ar leoliad yn ne Gwynedd. Ond, o ganlyniad i symud y ddarpariaeth ar-lein, llwyddwyd i gynnal y cwrs o bell ar Skype – y cwrs cyntaf o'i fath i ni ei drefnu.
Canolradd Rhan 2	Gwersi wythnosol 3 awr o hyd dros 15 wythnos	8	O ganlyniad i lwyddiant y cwrs Canolradd Rhan 1 ar gyfer staff Byw'n Iach, trefnwyd dilyniant iddynt rhwng mis Hydref 2020 a Chwefror 2021, ac yna'r gyfres olaf hon o wersi rhwng Mawrth a Mehefin 2021. Ar ddiwedd y cwrs, bydd y dysgwyr yn cwblhau lefel Canolradd ac yn cael y cynnig i sefyll arholiad a/neu barhau i astudio ar gwrs lefel Uwch ym mis Medi. Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth ganolog iddynt gyda Chyfaill Cymraeg.
Gloywi Iaith	6 sesiwn diwrnod cyfan mewn bloc o 3 diwrnod dros gyfnod o bythefnos	7	Yn ogystal â threfnu cyrsiau i ddysgwyr, credwn bod cynnal safon ein siaradwyr Cymraeg rhugl cyn bwysiced. Daeth y cyfle gan Gymraeg Gwaith am gwrs o fath newydd – cwrs dwys, chwe diwrnod wedi'i rannu'n ddau bloc o dridiau am bythefnos. Cafwyd ymateb da gan nifer o wahanol adrannau o'r Cyngor ac

			<p>roedd yn braf gweld staff a rheolwyr yn fodlon rhoi ymrwymiad amser dwys i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith.</p> <p>Yn wir, cymaint oedd llwyddiant y cwrs mewn un adran nes i'r Pennaeth wneud cais am gwrs arall i garfan arall o staff ddiwedd mis Mawrth, a chyfres arall i'w threfnu ym mis Mehefin.</p>
--	--	--	--

### Cyrsiau hunanastudio Cymraeg Gwaith

Mae'n hysbys i ni ers peth amser bod rhai carfannau o staff, yn bennaf y rheiny sy'n gweithio shifftiau neu sydd ar y rheng flaen, yn ei chael hi'n anodd ymrwymo i wersi "traddodiadol", e.e. cyrsiau cymunedol neu gyrsiau dwys a gynhelir bob dydd am wythnos gyfan, oherwydd natur ar-alw eu swyddi.

Er lleddfu'r rhwystr hwnnw i raddau wrth i wersi symud ar-lein, roedd y cyrsiau hunanastudio ar-lein a ddatblygwyd gan Cymraeg Gwaith yn caniatáu i fwy byth o ddysgwyr allu manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Er enghraifft, daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ganiatáu i staff o Ysgol Friars, Bangor, gofrestru ar y cwrs Hunanastudio Mynediad Rhan 1 ym mis Rhagfyr 2020. Roedd natur hyblyg y cwrs, lle gellid cwblhau unedau gwaith ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos, yn golygu bod staff yr ysgol yn gallu cydbwyso gwaith dydd i ddydd a chwrs mewn modd na ellid ei wneud o'r blaen. Bydd rhai o'r dysgwyr a gwblhaodd Rhan 1 yn symud ymlaen i Ran 2 ym mis Mehefin, ac er bod amgylchiadau'r pandemig wedi golygu na lwyddodd pawb i gwblhau'r cwrs, bu'r cwrs a'i egwyddorion hyblyg yn llwyddiant newydd yn y maes hwn. Rydym yn bwriadu cynnig yr un cwrs yn ehangach i staff ar y rheng flaen, er enghraifft cymorthyddion gofal cartref, yn y dyfodol.

### Cynllun Cyfeillion

Lansiwyd ein Cynllun Cyfeillion yn 2019 er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd yn y gweithle a pharhau i hogi eu gallu yn yr iaith y tu allan i'r dosbarth, a hynny yng nghwmni siaradwyr rhugl ar draws y sefydliad. Cafodd y Cynllun ei groesawu gan nifer o siaradwyr rhugl y Cyngor hefyd, gan ei fod yn gyfle iddynt gefnogi dysgwyr ar eu taith ddysgu a chynnig cymorth a chlust i wrando mewn awyrgylch anffurfiol.

Un enghraifft o lwyddiant y Cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ydi bod Cyfaill o ardal Dolgellau wedi gallu cyfarfod â dysgwyr yn ardal Arfon, a hynny dros Microsoft Teams – rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl cyn y pandemig. Mae'r dysgwyr, sydd yn dilyn cyrsiau cymunedol ar hyn o bryd, yn nodi bod cael y cyfle i siarad mewn awyrgylch anffurfiol ac ar amser sy'n gyfleus iddynt, yn helpu eu datblygiad yn fawr ac yn caniatáu gofod diogel iddynt ddefnyddio'r iaith, gwneud camgymeriadau ac elwa ar brofiad a sgiliau'r Cyfaill.

Mae Cyfaill arall yn helpu siaradwr rhugl gyda gloywi iaith, ac yn trefnu sesiynau yn ôl y galw gyda'r unigolyn. Yn ôl yr unigolyn sy'n cael ei fentora:

*“Dw i eisiau diolch i’r Cyfaill am ei hamser am fy helpu i wella fy Nghymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae fy sgiliau cyfathrebu llawer gwell erbyn hyn ac mae gennyf fwy o hyder rŵan ac yn ei weld yn haws cyfathrebu yn y cyfrwng Cymraeg.”*


Byddwn yn parhau gyda’r trefniadau presennol ac yn chwilio am ragor o Gyfeillion i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Mae’r tablau isod yn cynnig rhagor o wybodaeth ynglŷn â’r hyfforddiant iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2019-2020.**

#### **NIFER Y MYNYCHWYR YN ÔL MATH/TEITL CYRSIAU**

<b>Cwrs</b>	<b>Nifer Unigolion</b>
<b>Mewnol</b>	
Sesiynau 1:1 gyda thiwtor mewnol	1
Sesiwn Sgwennu Ffurfiol	5
<b>Allanol</b>	
Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg	8
1:1 gyda thiwtor allanol	2
Cyrsiau dwys	11
Cyrsiau hunanastudio ar-lein (Cymraeg Gwaith)	13
Comisiynau amrywiol	39
	79

#### **NIFER MYNYCHWYR YN ÔL MATH A LEFEL Y CWRS**



Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:

